**Ymateb i Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cymru ar y *Gwasanaeth Awyr oddi fewn i Gymru – Caerdydd i Ynys Môn: Adroddiad Terfynol***

**Argymhelliad 1.** Wrth iddi gomisiynu cyngor allanol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi rhychwant manwl y gwaith angenrheidiol ymlaen llaw ac y dylai unrhyw newidiadau yn y rhychwant hwnnw wedyn gael eu hategu ag achos busnes clir.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Wrth gomisiynu cyngor allanol mewn cysylltiad â Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru, bydd Llywodraeth Cymru'n pennu rhychwant clir a manwl i'r gwaith dan sylw. Gallai Llywodraeth Cymru ddewis lleihau, newid neu gynyddu y rhychwant hwnnw yn sgil clywed y dystiolaeth a roddir wrth gomisiynu, lle bo'r rheolau caffael yn caniatáu hynny.

**Argymhelliad 2.** Er mwyn caniatáu hyblygrwydd iddi ei hun i wneud penderfyniadau amserol ac effeithiol, dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad bob tair blynedd o gontractau a fydd yn dirwyn i ben ac erbyn pa bryd y mae angen dyfarnu contractau newydd.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Byddwn yn parhau i fonitro perfformiad contract y Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru at ddiben unrhyw adolygiad yn y dyfodol ynghylch parhau'r gwasanaeth ar ôl dyddiad ola'r contract yn 2018. Caiff unrhyw adolygiad yn y dyfodol ei gwblhau mewn da bryd i gyfrannu at yr ymarfer caffael.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, mewn cysylltiad â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, ddarparu asesiad o (a) costau ac effaith agor RAF Valley ar y penwythnos, o'i gymharu ag arfarniad o'r refeniw tebyg ac unrhyw fanteision eraill yn sgil gweithredu; a (b) addasiadau posibl ym Maes Awyr Ynys Môn i ymdopi â nifer fwy o deithwyr, gan gynnwys defnyddio'r cyfle a geir yn sgil gwaith gwella arfaethedig y Llu Awyr.

**Ymateb: Derbyn**
Bu Llywodraeth Cymru'n trafod y materion hyn gyda RAF Valley a Chyngor Ynys Môn yn ystod proses caffael y contract presennol. Byddwn yn dal i ymchwilio gyda phob carfan y cyfleoedd posibl ar gyfer estyn amserau agor RAF Valley, gan gynnwys ar y penwythnosau. Byddwn yn parhau hefyd i ymchwilio i botensial y maes awr i fodloni'r Rhaglen Ddiogelwch Genedlaethol ar Awyrennau (NASP) er mwyn i awyrennau mwy allu cael eu defnyddio ar y llwybr pe gwelid bod y galw masnachol ac ymhlith teithwyr am hynny.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi ei chynlluniau i sicrhau bod y newid yn y llwybr am fod RAF Valley yn cau

dros dro yn cael ei gyfleu i'r darpar deithwyr ymhell ymlaen llaw er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn sicrhau bod cwmni'r gwasanaeth, Links Air, yn rhoi gwybod i deithwyr am unrhyw newid i'r gwasanaeth os bydd RAF Valley'n cau dros dro. Byddwn yn dal i gadw mewn cysylltiad â Chyngor Ynys Môn, RAF Valley a Links Air er mwyn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar ddefnyddwyr y gwasanaeth os bydd RAF Fali'n cau am gyfnod.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fynd ati gyda Links Air i ystyried dibenion eraill i'w awyren rhwng ei hediadau o dan y PSO, yn enwedig y rhai a allai fod o les mewn mannau eraill.

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn parhau i annog Links Air i ddatblygu opsiynau ar gyfer llwybrau masnachol gan ddefnyddio'r awyrennau sydd ganddynt yng Nghymru.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad ar niferoedd y teithwyr a rhoi esboniad ar gyfer unrhyw anghysondeb rhyngddyn nhw a ffigurau'r CAA ym mis Ionawr 2016.

**Ymateb: Derbyn**
Cafwyd mwy o deithwyr yn ystod chwe mis cynta'r contract newydd nag yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Byddwn yn cyhoeddi niferoedd teithwyr bob blwyddyn ac yn eu cymharu hefyd â'r ffigurau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Hedfan Sifil.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n bwriadu defnyddio canfyddiadau'r arolygon teithwyr angenrheidiol i nodi sut i gynyddu niferoedd y teithwyr.

**Ymateb: Derbyn**
Bydd yr arolygon teithwyr yn erfyn pwysig i Links Air ei ddefnyddio i weld beth mae'r teithwyr am weld y gwasanaeth awyr yn ei ddarparu. Dylai'r canlyniadau fod yn adnodd gwerthfawr i'r cwmni gan ei alluogi i farchnata'r gwasanaeth yn well i gynyddu nifer y defnyddwyr.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi cost y cymhorthdal i bob teithiwr bob hyn a hyn, ynghyd â'i hasesiad o werth y gwasanaeth am arian, gan ddefnyddio cymariaethau addas, a hynny'n flynyddol.

**Ymateb: Derbyn**
Byddwn yn cyhoeddi cyfrifiad o gost y cymhorthdal fesul teithiwr wrth gyhoeddi ffigurau blynyddol y teithwyr er mwyn gallu asesu a yw’r gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.

**Argymhelliad 9.** Mae’r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn arfarnu gwaith marchnata’r cynllun, a ddylai gael ei wneud yn gynnar yn 2016.

**Ymateb: Derbyn**
Un o’r prif fatricsau y byddwn yn ei ddefnyddio i asesu llwyddiant strategaeth farchnata Links Air fydd y cynnydd yn nifer y teithwyr sy’n defnyddio’r gwasanaeth. Byddwn yn adolygu strategaeth farchnata Links Air, y deunydd a gynhyrchir, y gwariant a’r targedau a drawyd er mwyn sicrhau eu bod yn marchnata’r gwasanaeth yn unol â chytundeb y cytundeb.